# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 17 Gorffennaf 2013** |
| Amser: | **09:15 – 12:10** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_300000_17_07_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Christine Chapman (Cadeirydd)**<br>**Leighton Andrews**<br>**Peter Black**<br>**Janet Finch-Saunders**<br>**Mike Hedges**<br>**Gwyn R Price**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Rhodri Glyn Thomas**<br>**Lindsay Whittle** |
| Tystion: | **Lynsey Edwards, Llywodraeth Cymru**<br>**Francois Samuel, Llywodraeth Cymru**<br>**Simon White, Llywodraeth Cymru**<br>**Kath Palmer, Llywodraeth Cymru**<br>**Carl Sargeant, Gweinidog Tai ac Adfywio**<br>**Dr Roisin Willmott, Cyfarwyddwr Cenedlaethol, Royal Town Planning Institute Cymru**<br>**David Morgan, Sefydliad Brenhinol y Syrefewyr Siartredig Cymru** |

| Staff y Pwyllgor: | **Marc Wyn Jones (Clerc)**<br>**Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)**<br>**Rhys Iorwerth (Ymchwilydd)**<br>**Matthew Richards (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Jonathan Baxter (Ymchwilydd)** |
|---|---|

**TRAWSGRIFIAD**
Trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon
Cafwyd ymddiheuriadau gan Mark Isherwood. Nid oedd neb yn dirprwyo ar ei ran.

## 2 Ymchwiliad i'r rhwystrau i adeiladu cartrefi yng Nghymru - sesiwn dystiolaeth 4
Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru a Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Gwnaethant gytuno i ddarparu rhagor o wybodaeth am:

ddulliau gweithio cwmnïau cyfleustodau o ran datblygiadau tai newydd a'u perthynas â chwmnïau adeiladu;

a yw datblygwyr llai o dan anfantais o'u cymharu ag adeiladwyr tai sy'n gweithio ar raddfa fwy yn genedlaethol ac a yw polisi cynllunio cenedlaethol yn anfanteisiol i ddatblygwyr canolig eu maint;

rhagor o wybodaeth am fancio tir ac effaith hynny ar gwmnïau adeiladu llai;

enghreifftiau o gyfraniadau oddi ar y safle.

## 3 Ymchwiliad i'r rhwystrau i adeiladu cartrefi yng Nghymru - sesiwn dystiolaeth 5
Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Tai ac Adfywio. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r canlynol:

rhagor o wybodaeth am y cynllun rhannu ecwiti a gynigiwyd, pan fydd ar gael;

nodyn am faint y cyllid preifat a godir gan gyrff trosglwyddo stoc a'r graddau y mae hynny wedi cymell gwaith adeiladu tai;

manylion am y prosiect swyddfeydd/ystafelloedd gwely i'w rhentu ym Mhrestatyn.

## 4 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer darpariaethau yn ymwneud ag adennill meddiant tai annedd

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Tai ac Adfywio. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth am y canlynol:

hawliau statudol tenantiaid landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Cytunodd y Pwyllgor ar y Cynnig.

## 6 Dyfodol cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru – ystyried yr adroddiad drafft

Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft.

## 7 Ymchwiliad i lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon - ystyried y prif faterion

Ystyriodd y Pwyllgor y prif faterion, ac ystyrir adroddiad drafft yn ystod tymor yr hydref.

## 8 Blaenraglen Waith y Pwyllgor

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y blaenraglen waith.

## 9 Papurau i'w nodi

Nododd y Pwyllgor y papurau.

9.1 Gwybodaeth ychwanegol gan Chwaraeon Cymru yn dilyn y cyfarfod ar 19 Mehefin

9.2 Gwybodaeth ychwanegol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dilyn y cyfarfod ar 27 Mehefin

9.3 Gohebiaeth gan Bethan Jenkins AC

9.4 Gohebiaeth gan Ann Jones AC